O F F E R Y N N A U  S T A T U D O L
C Y M R U

# 2013 Rhif 2489 (Cy. 241)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 32, Helygain i Gyffordd 36A, Brychdyn, Sir y Fflint) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2013

*Gwnaed* *30 Medi 2013*

*Yn dod i rym* *6 Hydref 2013*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**Enwi, Dehongli a Chychwyn**

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 6 Hydref 2013 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 32, Helygain i Gyffordd 36a, Brychdyn, Sir y Fflint) (Gwaharddiadau a Chyfyngiad Traffig Dros Dro) 2013.

**2.** (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn a chan y gwasanaethau brys;

ystyr "cyfnod y gwaith" ("*works period*") yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 12:00 o'r gloch ar 6

Hydref 2013 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r gefnffordd" ("*the lengths of the trunk road*") yw'r darnau o gefnffordd yr A55 rhwng Cyffordd 32, Helygain a Chyffordd 36a, Brychdyn yn Sir y Fflint a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**Gwaharddiadau a Chyfyngiad**

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic pedal gael ei reidio ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**5.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb gerdded ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**6.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 7, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**Cymhwyso**

**7.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5 a 6 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y cyfyngiad a'r gwaharddiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn**

**8.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 30 Medi 2013

*R Morgan*
**R MORGAN**
Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Gwahardd Cerbydau, Cerddwyr a Beicwyr Dros Dro

i) Y darn o brif gerbytffordd y gefnffordd tua'r dwyrain a phrif gerbytffordd y gefnffordd tua'r gorllewin a phob ffordd ymuno ac ymadael y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 32, Helygain hyd at ganolbwynt Cyffordd 34, Cyfnewidfa Ewloe.

ii) Y darn o brif gerbytffordd y gefnffordd tua'r gorllewin a phob ffordd ymuno ac ymadael y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad canolbwynt Cyffordd 34, Cyfnewidfa Ewloe hyd at bwynt sy'n 317 o fetrau i'r dwyrain o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 36a, Brychdyn.

ii) Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 33, Llaneurgain.

### ATODLEN 2
### Terfyn Cyflymder 40 mya Dros Dro

Y darnau o brif gerbytffordd y gefnffordd tua'r dwyrain a phrif gerbytffordd y gefnffordd tua'r gorllewin sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 32, Helygain hyd at ganolbwynt Cyffordd 34, Cyfnewidfa Ewloe.